# Cofnodion Cyfarfod CCG Mis Hydref 30.10.20

**Am 7.30yh Ar-lein**

**19:149: Presennol:** Siôn Ifans (Cadeirydd), Gwen Lloyd, William Owen, Gwenfair Davies, Gareth Owen, Gareth Jones, Paul Hughes, Iwan Jones, Aled Griffiths

**19:150: Ymddiheuriadau:** Deryck Lewis, Dafydd Evans

**19:151: Datganiadau o ddiddordeb** – Paul Hughes – Tâl am dorri mynwentydd

**19:152: Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Medi**

Cynigiodd Gareth Owen fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies.

**19:153: Materion yn codi o'r Cofnodion**

**19:153:1: Bocs ffôn Cemaes** Derbyniwyd awgrymiadau o'r gymuned a gasglwyd gan Dŷ Cemaes. Y syniadau a fyddai'n fuddiol i'r gymuned yn nhyb y Cyngor oedd man casglu ar gyfer parseli a nwyddau. Gwahoddir cais ffurfiol gyda diolch i Siop Cemaes am y gwasanaeth a'r budd cyffredinol maent yn darparu i'r gymuned. Bydd Paul Hughes yn ymweld â'r bocs i asesu'r cyflwr o ran sbec diogelwch a chostau gwneud y bocs yn iawn i'w ddefnyddio. Cynigiwyd gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Iwan Jones

**19:154:1 Plot 1 Cemaes** Cytunwyd i gefnogi cais i rannu plot ar gyfer dau eiddo ar yr amod ei fod o fewn telerau'r polisi cyflenwad eiddo ar gyfer pobl leol a bod cyfeiriad mwy penodol o ran cadw'r pris o fewn cyrraedd pobl leol. Cynigiwyd gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen.

**19:154:2: Coeden Onnen yn Sŵn–y-nant, Abercegir**. Derbyniwyd cais i dorri coeden o ganlyniad i glefyd. Cynigiwyd y dylid derbyn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies

**19:155: Materion Ariannol:**

**19:155:1: Diweddariad ariannol:**

Rhoddwyd diweddariad i'r cynghorwyr o ran yr arian sydd yng nghyfrifon banc y Cyngor.

**19:155:2: Bancio ar-lein** Pwysleisiwyd yn daer mor hanfodol yw bwrw ymlaen gyda hwn. Penderfynwyd y byddai Paul Hughes a'r clerc yn cydweithio i sefydlu bancio ar-lein ac y dylid ychwanegu Siôn Ifans a Gareth Jones i'r mandate. Byddai'r clerc yn gwirio os oedd ei henw ar y mandate a threfnu i'w ychwangu pe byddai angen. Cytunwyd hyn gan bawb.

**19:154:3: Siec CThEM wedi mynd ar goll**. Penderfynwyd y dylid anfon siec arall am y swm cyfredol sy'n ddyledus gyda phrawf o bostio a llythyr i egluro.

**19:154:4:** Cyflog y clerc Awst a Medi

**19:154:5:** Whittingham Riddell - £440.00 (am wasanaethau cyflogres Mawrth 2019 a phrosesu'r gyflogres ar gyfer y flwyddyn dreth ddiwethaf) Cynigiwyd y dylid ei dalu gan Gwenfair Davies ac fe'i heiliwyd gan Paul Hughes

**19:154:5:** (Gadawodd Paul Hughes y cyfarfod) Paul Hughes – £1,350 am dorri mynwentydd Darowen a Llanwrin pedair gwaith yr un. Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Gareth Owen ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths. Mynegwyd diolch am y gwaith cymen a wnaethpwyd yn y ddwy fynwent.

**19:145: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

**19:145:1: Y Bwrdd Iechyd – Gwenfair Davies**

Cafwyd adroddiad gan Nicola Ruck ar ran Cyngor Iechyd Cymunedol wedi iddynt gael cyfarfod rhithiol gyda Carol Shilabeer, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgol Powys.

Soniodd Carol am y niferoedd cyfredol oedd yn dioddef o COVID 19 mewn ysbytai ym Mhowys, a hefyd bod oedi sylweddol yn rhestr aros llawfeddyginiaethau dewisol. Gwyddom nad oes gan y Bwrdd ysbytai arbenigol o fewn y Sir. Deellir eu bod yn cydweithio gydag ysbytai o fewn ardal ehangach na'r arferol sydd a chapasiti er mwyn ceisio mynd i'r afael a'r rhestr aros.

Mae staff ychwanegol yn cael eu hyfforddi ar gyfer profi ac olrhain a gweini brechlynnau.

Mae achos busnes Ysbyty Bro Ddyfi wedi cael ei gymeradwyo ac mae'r cynlluniau yn mynd yn eu blaenau.

**19:145:2: Addysg – Aled Griffiths**

O ganlyniad i newid yn y fformiwla ariannu gyfredol mae cyllid ar hyn o bryd ar gyfer yr ysgolion yn edrych yn dda. Mae niferoedd y plant yn cynyddu hefyd a bwriedir cyflogi athro/athrawes ychwanegol.

**19:145:3: Canolfan Glantwymyn – Paul Hughes**

Nid yw'r Ganolfan ar agor ar gyfer y cyhoedd o hyd ond mae'n cael ei defnyddio gan yr ysgol.

**19:146: Gohebiaeth:** Cafwyd cadarnhad bod cynllun busnes Ysbyty Bro Ddyfi wedi cael ei gymeradwyo.

**19:147: Materion eraill:**

**19:147:1: Sul y Cofio** – Cemaes, cynhelir gwasanaeth coffa bach a fydd yn cael ei addasu ar gyfer gofynion cadw pellter cymdeithasol. Bydd Heather yng ngofal y dorch.

**19:147:2: Taliadau i gyfrif CCG 2019** – nodwyd bod llythyr wedi cael ei lunio i'w anfon i'r banc i ddod o hyd i fanylion.

**19:147:3**: **Elusennau** Nodwyd y dylid ystyried anghenion y gymuned ar yr adeg ddigynsail hon.

Dewisir elusennau i dderbyn rhodd gan CCG yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.

Rhoddir nodyn yn y Blewyn Glas i wahodd awgrymiadau darllenwyr ar gyfer pennu achosion.

Cynigiwyd hwn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gwen Lloyd

**19:147:4**: **Manhole** ar y ffordd gefn o Ddarowen i Gomins rhwng Maesteg a Chwm Bychan mawr

**19:147:5**: **Ffens mynwent Darowen** wedi torri ger y Rheithordy. Bydd Iwan Jones asesu'r broblem.

**19:147:6**: **Bocs ffôn Darowen** – Mae gwydr a phren ar waelod y bocs wedi torri. Bydd y clerc yn cysylltu â BT.

Caewyd y cyfarfod am 9.00yh.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

**Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol CCG am 7.30yh ar y 26ain o Dachwedd.**

**Cynhelir Cyfarfod CCG am 8.00yh ar y 26ain o Dachwedd**

**Cyfarfod Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 29.10.20**

Derbyniwyd llythyr i ddiolch am y rhodd i Gôr Dyffryn Dyfi

Penderfynwyd y dylid trosglwyddo £5,000.00 i'r cyfrif cyfredol. Cynigiwyd hwn gan Paul Hughes ac fe'i heiliwyd gan Aled Griffiths

Cafwyd cais am arian gan Ennyn ar gyfer gweithdai wythnosol yn cynnwys gweithgareddau celf cerddoriaeth a dawns sy'n agored i bawb

Penderfynwyd cyfrannu £500.00 am y tro. Dymuna'r Cyngor gael adroddiad am ba ganran o'r sawl a fyddai'n cofrestru oedd o fewn ardal CCG a chynhwysir hwn fel amod. Bydd y Cyngor yn nodi'r cyfraniad yn ei adroddiad i'r Blewyn Glas i dynnu sylw at y fenter a denu cynulleidfa eang o fewn yr ardal. Cynigiwyd hwn gan Gaeth Jones ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies